Canolfan Nofio Llandudno Swimming Centre

***Amerlen Nofio / Swimming Timetable***

**Newidiadau i oriau agor**

Ym mis Medi 2017 bydd oriau agor Canolfan Nofio Llandudno yn newid yn sylweddol.

Mae'r newidiadau wedi eu rhestru isod ond mae'r datganiad canlynol yn ceisio egluro pam yr ydym ni'n cynnig gwneud y newidiadau hyn.

Mae rhaglen gyfredol y ganolfan yn caniatáu cynnal rhaglen addysg ysgolion ochr yn ochr â sesiynau cyhoeddus. Fel un o'r ychydig byllau nofio i weithredu yn y modd hwn mae Polisi Ymarfer Diogel Mewn Pyllau Nofio newydd y Cyngor ar gyfer ysgolion wedi nodi angen i adolygu'r drefn hon.

Mae'r adolygiad bellach wedi ei gynnal ac wedi amlygu bod ein trefniadau presennol yn creu risg annerbyniol i les plant a bod angen rhoi sylw i'r risg hon cyn gynted â phosibl.

Felly, fel y nodwyd uchod, o 11 Medi tan 25 Mai 2018 bydd y pwll ar gau i'r cyhoedd rhwng 9am a 12.15pm. Ni fydd oriau nofio cyn (6.30am tan 9am) nac ar ôl hynny (12.15pm tan 15.45pm) yn cael eu heffeithio. Mae manylion ein horiau agor i'w gweld yn y ganolfan ac ar ein gwefan yn www.conwy.gov.uk.

Hoffem gymryd y cyfle yma i ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir i chi gan y newidiadau hyn a fydd yn cael eu gweithredu 25 wythnos y flwyddyn. Y tu allan i'r cyfnod a nodir uchod (gan gynnwys gwyliau ysgol) bydd oriau agor y ganolfan yn unol â'r amserlen wreiddiol.